

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
CYFARFOD:	Y CYNGOR SIR
DYDDIAD:	10.05.2012
TEITL YR ADRODDIAD:	ADRODDIAD BLYNYDDOL GAN GADEIRYDD Y PWYLLGOR SAFONAU I'R CYNGOR SIR YN AMLINELLU GWAITH Y PWYLLGOR YN 2011/12 AC YN CYFLWYNO EI RAGLEN WAITH AR GYFER 2012/13
PWRPAS YR ADRODDIAD:	SICRHAU CYMERADWYAETH Y CYNGOR SIR I WAITH Y PWYLLGOR SAFONAU
ADRODDIAD GAN:	Y PWYLLGOR SAFONAU
SWYDDOG CYSWLLT	MEIRION JONES – Y CYFREITHIWR I'R SWYDDOG MONITRO

1. Yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mawrth 2011, penderfynodd y Cyngor Sir gymeradwyo Rhaglen Waith y Pwyllgor Safonau am y flwyddyn a oedd yn dechrau ym Mawrth 2011. Mae'r ddogfen honno, ynghyd â diweddariad anodedig, i'w gweld yn **ATODIAD A**. Roedd y Rhaglen Waith wreiddiol yn cynnwys y tair colofn gyntaf, sef y gwaith i'w wneud, yr amserlen a'r adnoddau. Mae'r golofn ar y dde yn nodi'r gwaith sydd wedi'i wneud ac yn dangos y gwaith sydd ar ôl i'w wneud.
2. Cyfeiriwyd at y Pwyllgor Safonau yn yr Adroddiad ar yr Archwiliad Llywodraethu Corfforaethol yng Nghorffennaf 2009 (paragraffau 25 a 26) ac mae, trwy ei Raglen Waith, wedi mabwysiadu rôl sy'n fwy rhagweithiol. Lluniwyd y blaenoriaethau arfaethedig i gefnogi'r Cyngor i gyflawni ei Raglen Adfer gyda phwyslais cryf ar gynorthwyo hunanreoliad trwy Gynllun effeithiol i ddatblygu Aelodau ac i roi cymorth ac arweiniad i Arweinyddion Grwpiau/Cadeirydd y Cyngor i ddatrys materion disgyblu yn y Cyngor, lle mae'n briodol.
3. Un o gonglfeini'r Rhaglen Waith oedd esblygu Cynllun Datblygu Aelodau ac, er mwyn sicrhau bod hwnnw'n llwyddo, roedd angen cefnogaeth yr Aelodau gan

gynnwys atborth ar sylwedd, cynnwys a'r dull o ddarparu'r sesiynau datblygiadol arfaethedig. I'r perwyl hwn, sefydlwyd Gweithgor Datblygu Aelodau i asesu, monitro a diwygio'r Cynllun Datblygu Aelodau wrth iddo esblygu. Ym marn y Pwyllgor Safonau, roedd y trefniant hwn yn cynorthwyo'r Pwyllgor Safonau i weithio gyda'r aelodau etholedig i gael mwy o berchenogaeth o'r Cynllun Datblygu Aelodau ac i gael mwy o ran ynddo.

4. Daeth y cyfnod pedair blynedd y Pwyllgor Safonau blaenorol i ben ar 17 Rhagfyr 2011 a sefydlwyd a Pwyllgor Safonau newydd i ddechrau ar 18 Rhagfyr 2011. Rhwng Mawrth 2011 a Rhagfyr 2011 cyfarfu'r Pwyllgor Safonau blaenorol ar 5 achlysur, 4 cyfarfod ffurfiol ac 1 gwrandawriad caniatâd arbennig. Mae'r Pwyllgor Safonau newydd wedi cyfarfod mewn 3 cyfarfod ffurfiol yn cynnwys gwrandawriad achos rhagarweiniol. Mae gwrandawriad achos rhagarweiniol ynglŷn â mater arall wedi ei drefnu erbyn 4 Mai.
5. Yn dilyn argymhelliad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru y dylai Cynghorwyr Sir fod yn gwasanaethu ar y Pwyllgor Safonau, penderfynodd y Cyngor ddilyn yr argymhelliad hwnnw yn y cyfarfod ar 11 Mai 2010 ac enwebwyd 3 Chynghorydd Sir i fod yn aelodau o'r Pwyllgor Safonau. Ar y 12 Fawrth 2011 penderfynodd y Cyngor Sir ac wedyn cadarnhawyd eu barn gyn y Gweinidogion Cymreig, i ddiwygio'r Cyfansoddiad ac aelodaeth y Pwyllgor Safonau trwy gynyddu nifer cynrychiolwyr y Cynghorau Tref a Chymuned ar y Pwyllgor Safonau i ddau. Tra na cheir mwy na 9 aelod ar Bwyllgor Safonau newidiwyd cyfansoddiad y Pwyllgor Safonau i 2 Gynghorydd Sirol, 2 Gynghorydd Cymuned a Thref a 5 Aelod Annibynnol. Bydd aelodau'r Pwyllgor Safonau cyfredol yn parhau i wasanaethu yn y rôl honno tan 17 Rhagfyr 2015.
6. Mynychodd aelodau'r Pwyllgor Safonau sesiwn hyfforddi gyda Peter Keith-Lucas o Bevan Britten ar 1 Chwefror 2012 ynglŷn â threfn gwrandawriad.
7. Yn **ATODIAD B** sydd ynghlwm gwelir y Rhaglen Waith ddrafft ar gyfer y Pwyllgor Safonau o fis Ebrill 2012 i fis Mai 2013, a fabwysiadwyd gyn y Pwyllgor Safonau yn ei gyfarfod ar 27 Mawrth 2012.

Argymhellion

- Nodi cynnwys yr Adroddiad hwn; a
- Cymeradwyo Rhaglen Waith y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2012/13

RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SAFONAU - MAWRTH 2011 i FAWRTH 2012

	AMSERLEN	ADNODDAU	STATWS ar 20 Ebrill 2012
1.	Cynnal gwrandawiaidau i achosion honedig o dorri'r Côt Ymddygiad i Aelodau yn dilyn derbyn atgyfeiriadau gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru yn unol ag Adran 69, Pennod III, Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.	<ul style="list-style-type: none"> • Pryd bynnag y bydd atgyfeiriadau o'r fath yn cael eu derbyn gan yr Ombwdsmon. 	<ul style="list-style-type: none"> • Swyddog Monitro • Dirprwy Swyddog Monitro • Cyfreithiwr y Swyddog Monitro <p>Ar 30/8/11, anfonodd yr Ombwdsmon adroddiad ar Gynghorydd Sir i'r Swyddog Monitro i'w gyfeirio i'r Pwyllgor Safonau am ystyriaeth. Cynhaliwyd gwrandawriad rhagarweiniol ar 14/03/2012.</p>
2.	Cynnal gwrandawiaidau i geisiadau am ganiatâd arbennig gan Gynghorwyr Sir yn unol ag Offeryn Statudol 2001 Rhif 2279(w.169)	<ul style="list-style-type: none"> • Fel a phryd y derbynir ceisiadau 	<ul style="list-style-type: none"> • Swyddog Monitro • Dirprwy Swyddog Monitro • Cyfreithiwr y Swyddog Monitro <p>Un cais yn unig a wnaethwyd yn ystod y flwyddyn ar 12/10/2011 pan gymeradwywyd caniatad arbennig i'r 40 aelod ynglyn ag indemniad.</p>
3.	Ar gais unrhyw Arweinydd Grŵp, rhoi cyngor ar faterion yn codi o dan Brofocol Hunanreoleiddiol arfaethedig y Cyngor.	<ul style="list-style-type: none"> • Pan fydd unrhyw Arweinydd Grŵp neu Arweinyddion Grŵp yn gofyn am hynny 	<ul style="list-style-type: none"> • Swyddog Monitro • Dirprwy Swyddog Monitro • Cyfreithiwr y Swyddog Monitro <p>Ni wnaethpwyd cais</p>
4.	Bod â throsolwg dros y Cynllun Datblygu Aelodau, y bwriedir iddo gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • Ynghlwm mae Cynllun Datblygu Blynyddol i Aelodau Etholedig a gyflwynwyd i'r Cyngor ar 09/12/10 ac a ohiriwyd hyd nes y cyfarfod o'r Cyngor ar 08/02/11 (106592) 	<ul style="list-style-type: none"> • Rheolydd AD • CLLC/WLGA • Swyddog Monitro • Dirprwy Swyddog Monitro • Swyddog Gwybodaeth Gorfforaethol 	<ul style="list-style-type: none"> • Ynghlwm mae Cynllun Datblygu Blynyddol i Aelodau Etholedig a gyflwynwyd i'r Cyngor ar 09/12/10 ac a ohiriwyd hyd nes y cyfarfod o'r Cyngor ar

<ul style="list-style-type: none"> Sesiynau hyfforddi a chynefino ar gyfer y Pwyllgor Safonau newydd. Ystyried a pharatoi ar gyfer sesiynau cynefino a hyfforddi Cyngorwyr yn 2012. Targedir yr hyfforddiant i gwrdd ag anghenion penodol y rheini a sancsiynwyd gan y Panel Dyfarnu. 	<p>08/02/11 (106592)</p> <ul style="list-style-type: none"> Ar ôl 18/12/11 } Mawrth 2012 } Fel y cyfyd yr angen } 	<ul style="list-style-type: none"> Sesiwn hyfforddi Peter Keith-Lucas 01/02/2012 Gohiriwyd yr Etholiad i 2013 Nid oedd angen yn y cyfnod
<p>5.</p> <p>Derbyn adroddiadau a chymryd rhan mewn adroddiadau gan y Gweithgor Datblygu a Chefnogi Aelodau.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Fel a phryd y cyfyd yr angen 	<ul style="list-style-type: none"> Rheolydd AD CLLC/WLGA Swyddog Monitro
<p>6.</p> <p>Arolygu'r ddwy Gofrestr o Ddiddordebau'r Aelodau trwy gynnal arolygon blynyddol a thrwy roi cyngor a chyfarwyddyd wedyn, os yn briodol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Anfonir nodyn atgoffa ym Mai 2011 ac adolygiad ym Medi 2011 	<ul style="list-style-type: none"> Swyddog Monitro Cyfreithiwr y Swyddog Monitro
<p>7.</p> <p>Cadw golwg ar y Gofrestr o Roddion a Lietygarwch trwy gynnal arolygon blynyddol ac wedyn cynnig cyngor a chyfarwyddyd fel y bo'n briodol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Adolygiad ar ôl 08/05/11. 	<ul style="list-style-type: none"> Swyddog Monitro Cyfreithiwr y Swyddog Monitro
<p>8.</p> <p>Cynnwys adolygiad o bolisi'r Cyngor ar roddion a lietygarwch ac unrhyw argymhellion sy'n codi ohonynt, a pharhau gyda'i waith ar Brotocol ar gyfer Rhoddion a Lietygarwch.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Mawrth 2011 ymlaen 	<ul style="list-style-type: none"> Mabwysiadwyd y Protocol a'r ffurflen gan y Cyngor Sir. Cytunodd y Pwyllgor Safonau gytuno i'r ffurflen gael ei chyflwyno ac wedyn ei defnyddio o 1/10/2011. Ni wnaethpwyd cais.
<p>9.</p> <p>Gweithredu fel pwyllgor i ymgynghori ag ef ar unrhyw newidiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad fyddai'n rhagfarnu hawliau a diddordebau unrhyw grŵp lleiafrifol mewn ffordd anghydfartal.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Fel a phryd y gofynnir. 	<ul style="list-style-type: none"> Swyddog Monitro Rheolwr-gyfarwyddwr

10.	<p>Codi profil y Pwyllgor Safonau trwy:-</p> <ul style="list-style-type: none"> Lansio Rhaglen Waith y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2011 trwy ddatganiad i'r wasg. Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau yn rhoi cyflwyniad/cyflwyniadau i'r cyhoedd ar waith, cyfansoddiad a recriwtio i'r Pwyllgor Safonau ac ati yn ystod y rownd mwyaf priodol o'r cyfarfodydd cyhoeddus ("Hawl i Holl") Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor llawn yn amlinellu gwaith y Pwyllgor Safonau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. 	<ul style="list-style-type: none"> Cyn gynted ag y bo modd ar ôl 08/03/2011 Ar yr adeg fwyaf priodol yn haf 2011 gan y bydd rhaid recriwtio'r Pwyllgor Safonau newydd erbyn 17/12/2011 Mawrth 2012 	<ul style="list-style-type: none"> Swyddog Cyfathrebu Swyddog Monitro Swyddog Cyfathrebu Swyddog Monitro Cyfreithiwr y Swyddog Monitro 	<p>Cwblhawyd</p> <p>Gohiriwyd hwn dros dro yn dilyn penodi'r Comisiynwyr</p> <p>Gwneir y cyflwyniad ar 10/05/2012</p>
11.	<p>Adolygu Protocol y Cyngor ar gyfer y Berthynas Aelodau/Swyddogion sydd yn rhan 5.3 o'r Cyfansoddiad ar hyn o bryd, law yn llaw â'r Protocol Gwybodaeth.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Tachwedd 2011 ymlaen 	<ul style="list-style-type: none"> Swyddog Monitro Cyfreithiwr y Swyddog Monitro 	<p>Cyflwynwyd copïau o'r Protocol Cyfredol a'r Protocol newydd arfaethedig i gyfarfod chwarterol y Pwyllgor Safonau ar 27/03/2012 am sylwadau ac ystyriaeth bellach yn y cyfarfod ym Mehefin.</p> <p>Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Safonau chwarterol ar 14 Rhagfyr 2011 a bydd adroddiad pellach yn cael ei ystyried yn 2012.</p>
12.	<p>Cynllun peilot ar gyfer Protocol Hunanreoleiddiad</p>	<ul style="list-style-type: none"> Hydref 2011 ymlaen 	<ul style="list-style-type: none"> Swyddog Monitro 	

13.	Sefydlu Panelau i ddelio gyda chaniatadau arbennig, yn arbennig ar fyr rybudd.	<ul style="list-style-type: none"> Mai 2011 	<ul style="list-style-type: none"> Swyddog Monitro 	Ystyriwyd a chwblhawyd ar 14/9/2011.
14.	Gweithredu fel Pwyllgor i ymgynghori ag ef ynghylch adroddiad sy'n rhoi sylw i Hawliau Mynediad Aelodau a materion Diogelwch Data	<ul style="list-style-type: none"> Fel y cyfyd yr angen. 	<ul style="list-style-type: none"> Swyddog Monitro Swyddog Gwybodaeth Gorfforaethol 	Yn dilyn cyfarfod anffurfiol o'r Comisiynwyr ar 3/5/2011, ail-ddrafftwyd yr adroddiad ond yn dilyn sylwadau pellach daeth yn amlwg bod yna faterion roedd angen ymchwilio ymhellach iddynt, ac nid ydynt wedi eu cwblhau.
15.	Ystyried y Weithdrefn Gwynion Gorfforaethol a Model Llywodraeth Cynulliad Cymru.	<ul style="list-style-type: none"> Fel a phryd y cyhoeddir y dogfennau 	<ul style="list-style-type: none"> Swyddog Monitro Cyfreithiwr y Swyddog Monitro Swyddog Gofal Cwsmer Corfforaethol 	Ail ystyriwyd yr awgrymiadau gwreiddiol oherwydd agweddau cyllidol. Mae mandad diwygiedig i'w gyflwyno i Dim Rheoli'r Penaeithiaid Gwasanaeth ym Mehefin.
16.	Ystyried y Cyfansoddiad drafft newydd.	<ul style="list-style-type: none"> Mawrth 2011 ymlaen 	<ul style="list-style-type: none"> Swyddog Monitro Cyfreithiwr y Swyddog Monitro 	Sefydlwyd Gweithgor Cyfansoddiad gyn y Comisiynwyr mis Hydref ac mae'n ym mis Hydref ac mae'n adrodd i Fwrdd y Comisiynwyr a'r Cyngor Sir ar 30/04/2012 a 10/05/2012
17.	Ystyried unrhyw newidiadau eraill i'r Cyfansoddiad	<ul style="list-style-type: none"> Fel y cyfyd yr angen 	<ul style="list-style-type: none"> Swyddog Monitro 	Nid oedd angen yn y cyfnod.
18.	Derbyn Mesur Llywodraeth Leol	<ul style="list-style-type: none"> Ar adeg ei gyhoeddi gan LICC 	<ul style="list-style-type: none"> Swyddog Monitro Rheolwr-gyfarwyddwr 	Rhoddyd wybodaeth i gyfarfodydd y Pwyllgor ar 14/9/2011 a 14/12/2011

19.	Recriwtio'r Pwyllgor Safonau newydd erbyn 17/12/2011	<ul style="list-style-type: none"> • Haf 2011 ymlaen. 	<ul style="list-style-type: none"> • Swyddog Monitro • Dirprwy Swyddog Monitro • Cyfreithiwr y Swyddog Monitro. 	<p>Cwblhawyd a mabwysiadwyd y Pwyllgor Safonau newydd gan y Cyngor ar 08/12/2011 yn dilyn –</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfarfod o Gynrychiolwyr Cyngorau Tref a Chymuned ar 10/11/2011 i ddewis dau Gynrychiolydd o'r Cyngorau Tref a Chymuned • Y panel i benodi 5 Aelod Annibynnol ar 23/11/2011 • Y Cyngor Sir ar 08/12/2011 yn ethol dau Gyngorydd Sirol.
-----	--	--	--	--

CYNLLUN DATBLYGU BLYNYDDOL I AELODAU ETHOLEDIG

Tachwedd 2010 – Mawrth 2012

MAES	CYNULLEIDFA	DARPARWR POSIBL	DYDDIAD ARFAETHEDIG YR HYFFORDDIANT OS YW'N HYSBYS
Sgiliau Cadeirio – Sesiynau Hyfforddi	Cadeiryddion/ Is-Gadeiryddion	Clare Forrest	Tachwedd 2010
Rheoli Risg	Pwyllgor Archwilio	James Quance – PWC Owen Rees – Zurich	Tachwedd 2010
Rheoli'r Trysorlys	Pwyllgor Archwilio / Pwyllgor Gwaith	Richard Basson, Sector	Rhagfyr 2010
Datblygu Protocolau Gwleidyddol		Ian Bottrill	Ionawr/Chwefror 2011
Côd Ymddygiad a Moeseg	Cynghorau Tref a Chymuned	Ken Burton – Unllais Cymru	Chwefror 2011
Gwybodaeth Dylunio ar gyfer Cymru	Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio	Allanol	Mawrth 2011
Cynllun Gwella Cynllunio	Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio	Mewnol	Mawrth 2011
Rheoli Risg	Pwyllgor Archwilio / Pwyllgor Gwaith	James Quance – PWC Owen Rees – Zurich	Ebrill/Mai 2011
Y diweddaraaf ar y Weithdrefn Gwynion Newydd Statudol	Yr holl Aelodau	Swyddog Gwybodaeth Gorfforaethol a'r Swyddog Gofal Cwsmer	i'w drefnu
Diweddariadau ynghylch Cynllunio	Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio	Robyn Jones (Cyfreithiol) & E Gwyndaf Jones (Cynllunio)	Fel a phryd y caiff ei nodi

Y diweddaraf ar Drwyddedu	Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu	Ar y cyd gyda Chyngor Sir Gwynedd	Fel a phryd y caiff ei nodi
Y diweddaraf ar y Côd Ymddygiad	Yr holl Aelodau	Swyddog Monitro	I'w drefnu
Sgiliau TG	Yr holl Aelodau	Darparwyr Mewnol ac Allanol	Fel a phryd y caiff ei nodi
Trosolwg o Reolaeth Prosiect	Fel y caiff ei nodi gan y Rheolwr Prosiect Interim	Mewnol	Fel a phryd y caiff ei nodi
Blaenoriaethu Baich Gwaith	Yr holl Aelodau	Ar y cyd gyda Chyngor Sir Gwynedd	I'w drefnu
Sgriwtini – Dadansoddi Cyllidebau	Yr holl Bwyllgorau Sgriwtini	Cyfarwyddwr Cyllid Corfforaethol	I'w drefnu
Sgriwtini – Cadeirio	Yr holl Bwyllgorau Sgriwtini	Clare Forrest	I'w drefnu
Sgriwtini - Sgiliau Cwestiynu	Yr holl Bwyllgorau Sgriwtini	Mewnol	I'w drefnu
Cynllunio Adolygiad Manwl o Sgriwtini	Yr holl Bwyllgorau Sgriwtini	Mewnol	I'w drefnu
Materion Pwrcasu	I'w nodi	Mewnol	I'w drefnu
Hyfforddiant Cyflwyno	Fel a nodir ar gyfer Aelodau Etholedig newydd	Mewnol	Fel a phryd y caiff ei nodi

RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SAFONAU – EBRILL 2012 I MAI 2013

	AMSERLEN	ADNODDAU
1.	Cynnal gwrandawiadau i achosion honedig o dorri'r Cód Ymddygiad i Aelodau yn dilyn cyfeiriadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC)	<ul style="list-style-type: none"> • Swyddog Monitro • Dirprwy Swyddog Monitro • Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro
2.	Cynnal gwrandawiadau i geisiadau am ganiatâd arbennig.	<ul style="list-style-type: none"> • Swyddog Monitro • Dirprwy Swyddog Monitro • Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro
3.	Cymryd swyddogaeth ymgynghorol mewn perthynas â materion a gyfyd dan Brotool y Cyngor ar gyfer Hunanreoleiddio neu unrhyw gynllun olynol.	<ul style="list-style-type: none"> • Swyddog Monitro • Dirprwy Swyddog Monitro • Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro
4.	Goruchwyllo'r Cynllun Datblygu Aelodau, gan gynnwys:- <ul style="list-style-type: none"> • Hyfforddiant parhaus ar gyfer y Pwyllgor Safonau • Ystyried a pharatoi cwrs cynefino a hyfforddiant ar gyfer y Cyngorwyr a gânt eu hethol yn 2013 • Hyfforddiant i dargedu anghenion penodol y rheiny sy'n cael eu cosbi gan Banel Dyfarnu Cymru (PDC) neu'r Pwyllgor Safonau 	<ul style="list-style-type: none"> • Rheolydd AD • CLILC • Swyddog Monitro • Dirprwy Swyddog Monitro • Swyddog Gwybodaeth • Gorfforaethol
5.	Bod yn rhan o'r Gweithgor Datblygu Aelodau a derbyn adroddiadau ganddo.	<ul style="list-style-type: none"> • Rheolydd AD • CLILC • Swyddog Monitro
6.	Goruchwyllo'r ddwy Gofrestr o Ddiddordebau'r Aelodau	<ul style="list-style-type: none"> • Swyddog Monitro

	drwy eu hadolygu bob blwyddyn gan roi cyngor a chanllawiau wedyn os yw hynny'n briodol.		<ul style="list-style-type: none"> • Cyfreithiwr i'r Monitro 	Swyddog
7.	Goruchwylio'r Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch drwy ei hadolygu bob blwyddyn gan roi cyngor a chanllawiau wedyn os yw hynny'n briodol.	<ul style="list-style-type: none"> • Erbyn diwedd 2012 	<ul style="list-style-type: none"> • Swyddog Monitro • Cyfreithiwr i'r Monitro 	Swyddog
8.	Cymryd rôl corff yr ymgynghorir ag ef mewn perthynas ag unrhyw newidiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad a fyddai'n rhagfarnu mewn modd anghymesur, hawliau neu ddiddordebau unrhyw grŵp lleiafrifol.	<ul style="list-style-type: none"> • Fel a phryd y derbynir cais 	<ul style="list-style-type: none"> • Swyddog Monitro • Prif Weithredwr 	
9.	Cymryd rôl corff yr ymgynghorir ag ef mewn perthynas â fersiynau drafft unrhyw ganllawiau/protocolau ac ati a gyhoeddur gan OGCC o ran y Côd Ymddygiad i Aelodau/Protocol ar gyfer Datrys Materion yn Lleol ac ati.	<ul style="list-style-type: none"> • Fel a phryd y derbynir cais 	<ul style="list-style-type: none"> • Swyddog Monitro 	
10.	Yn dilyn ymgynghori gydag Aelodau, goruchwylio'r broses o gyhoeddi holl Ffurflenni Datgan Diddordeb yr Aelodau ar wefan y Cyngor a sicrhau y rhoddir cyhoedduswydd i'r cyfleuster.	<ul style="list-style-type: none"> • Dyddiadau i'w cytuno gyda TGCh 	<ul style="list-style-type: none"> • Pennaeth (TGCh) • Swyddog Monitro 	Gwasanaeth
11.	Yn amodol ar ymgynghori gydag Aelodau, gwneud argymhellion i fwy o wybodaeth gael ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor (gan gynnwys gwybodaeth ynghylch lwfansau, treuliau, cofnod mynychu ac oriau hyfforddiant).	<ul style="list-style-type: none"> • Cyn Mai 2013 	<ul style="list-style-type: none"> • Swyddog Monitro • Cyfreithiwr i'r Monitro 	Swyddog
12.	Cadeirydd y Pwyllgor Safonau i gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor llawn yn amlinellu gwaith y Pwyllgor Safonau yn ystod y flwyddyn flaenorol.	<ul style="list-style-type: none"> • Mai 2013 	<ul style="list-style-type: none"> • Swyddog Monitro • Cyfreithiwr i'r Monitro 	Swyddog
13.	Argymhell Protocol newydd ar gyfer y Berthynas rhwng Aelodau / Swyddogion.	<ul style="list-style-type: none"> • Cyn Mai 2013 	<ul style="list-style-type: none"> • Swyddog Monitro • Cyfreithiwr i'r Swyddog 	Swyddog